# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# Dogfen Ymgynghori 2014

## Darparu darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol yng Nghyncoed, Pen-y-lan a rhannau o Blasnewydd

22 Hydref 2014 – 03 Rhagfyr 2014



Gellir darparu’r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir hefyd roi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill yn ôl yr angen.
Er mwyn trefnu hyn, ffoniwch 029 2087 2720.

CARDIFF
CAERDYDD

# Tabl Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon | 2 |
| 3. | Sut gallwch ddarganfod mwy a rhannu eich barn? | 3 |
| 4. | Mae eich Barn yn Bwysig | 3 |
| 5. | Cefndir y cynnig | 4 |
| 6. | Y cynnig | 4 |
| 7. | Map Dalgylch Darpariaeth Ysgolion Cynradd yng Nghyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd | 5 |
| | • Lleoliad y Safle/ Cynllun Dangosol | 6 |
| | • Rhestr o'r cyfleusterau a gynigir yn yr ysgol newydd | 6 |
| 8. | Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd | 7 |
| | • Capasiti Ysgolion, Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgolion | 7 |
| | • Darpariaeth Cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd | 7 |
| | • Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd | 8 |
| | • Darpariaeth Ysgolion Ffydd ar hyn o bryd | 8 |
| 9. | Galw am lefydd yn y dyfodol | 10 |
| | • Cwrdd â'r galw tybiedig gan boblogaeth gynyddol | 10 |
| | • Sut gallai'r galw newid? | 10 |
| 10. | Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin? | 11 |
| 11. | Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill? | 12 |
| | • Trefniadau Interim | 14 |
| 12. | Beth fyddai'r effaith ar ysgolion uwchradd? | 14 |
| 13. | Beth fyddai'r effaith ar wasanaethau eraill? | 14 |
| 14. | Ansawdd a Safonau | 15 |
| | • Estyn | 15 |
| | • Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru | 15 |
| 15. | Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn? | 17 |
| 16. | Anfanteision posibl y cynigion hyn | 18 |
| 17. | Risgiau'n gysylltiedig â'r cynigion hyn | 18 |
| 18. | Dewisiadau amgen a ystyriwyd | 18 |
| | • Y Sefyllfa Bresennol – dim newidiadau i adeiladau ysgol na dalgylchoedd | 18 |
| | • Newid ffiniau dalgylchoedd a pheidio â newid adeiladau ysgol presennol | 19 |
| | • Newid ffiniau dalgylchoedd ac ymestyn adeiladau ysgolion presennol | 20 |
| | • Sefydlu ysgol â dau ddosbarth derbyn newydd ar safle Howardian a newid dalgylchoedd | 22 |
| 19. | Trefniadau derbyn a dalgylchoedd | 23 |
| 20. | Materion Ariannol | 23 |
| 21. | Materion Adnoddau Dynol | 23 |
| 22. | Materion Trafnidiaeth | 24 |
| 23. | Trefniadau Teithio Dysgwyr | 25 |
| 24. | Effaith y cynnig ar y Gymraeg | 25 |
| 25. | Materion yn ymwneud â chydraddoldeb | 25 |
| 26. | Materion Cynaladwyedd | 25 |
| 27. | Ystyried effaith ar y gymuned | 26 |
| 28. | Dyddiadau allweddol | 26 |
| | • Beth sy'n digwydd nesaf? | 26 |
| | • Beth yw'r prif ddyddiadau a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad a'r broses yn ei chyfanrwydd? | 26 |
| 29. | Cwestiynau Cyffredin | 27 |
| 30. | Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori | 28 |

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig o ran trefniadaeth ysgolion sydd wedi'i gyflwyno yn eich ardal. Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Gofynnir am farn amrywiaeth o unigolion a grwpiau am y cynnig. Mae'r canlynol ymysg y rheini mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses hon:

- Plant a phobl ifanc
- Rhieni/gofalwyr
- Staff ysgolion
- Cyrff Llywodraethu Ysgolion
- Preswylwyr lleol
- Aelodau Etholedig (Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol)
- Cyfarwyddwyr yr Eglwys yng Nghymru a'r Awdurdod Esgobaethol Catholig
- Awdurdodau lleol cyfagos
- Ysgolion eraill o fewn dwy filltir i'r ysgolion y mae'r cynigion hyn yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
- Estyn
- Gweinidogion Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Consortiwm Addysgol Rhanbarthol
- Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
- Undebau Llafur
- Darparwyr Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
- Clybiau Plant Cymru Kids Club
- Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol

## Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**Noder y termau canlynol a ddefnyddir yn y ddogfen:**

Ysgolion ag un dosbarth derbyn - mae hyn yn cyfeirio at ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn.

Felly mae ysgolion â dau ddosbarth derbyn yn ysgol o ddau ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn.

Dosbarth dechreuol – mae hyn yn cyfeirio at ysgol newydd wedi'i chyflwyno fesul cam yn dechrau gyda phlant ar gyfer dosbarthiadau meithrin a derbyn yn unig.

'Data nifer y disgyblion ar y gofrestr' – nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol ac eithrio disgyblion meithrin.

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion - ym mis Ionawr bob blwyddyn, cesglir gwybodaeth wedi'i dilysu gan yr ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, a data ar yr iaith Gymraeg, hawl i brydau ysgol am ddim, Anghenion Addysgol Arbennig ac iaith gyntaf.

'AAA' – Anghenion Addysgol Arbennig

## Sut gallwch chi gael rhagor o wybodaeth a dweud eich dweud?

Trefnwyd cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio lle caiff y cynigion eu hegluro. Mae'r rhain yn gyfle i chi holi cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi. Gallwch hefyd gyflwyno eich barn ar bapur.

Bydd gwybodaeth am y cynnig hwn ar gael yng Nghanolfan Howardian.

Nodir manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori isod:

| Math o Ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Cyfarfod Cyhoeddus | 03.11.2014 am 6 pm | Canolfan Howardian |
| Cyfarfod Cyhoeddus | 13.11.2014 am 6 pm | Canolfan Howardian |
| Sesiwn galw heibio | 05.11.2014 rhwng 1pm a 3pm | Llyfrgell a Neuadd Gymunedol Pen-y-lan |
| Sesiwn galw heibio | 11.11.2014 rhwng 10am a 12pm | Canolfan Howardian |

Hefyd, mae sesiynau gweithdy wedi'u trefnu ar gyfer disgyblion cynradd lleol i roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y cynnig a rhoi eu barn.

## Mae eich barn yn bwysig

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y cynnig. Gallwch wneud hyn drwy ddod i un o'r cyfarfodydd neu'r sesiynau galw heibio uchod a/neu gwblhau'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar dudalen 28 neu drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein **www.caerdydd.gov.uk/Ysgolionyr21ainGanrif**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 03 Rhagfyr 2014.

## Cefndir y Cynnig

Bu galw cynyddol am lefydd ysgolion cynradd yn ardal Cyncoed, Pen-y-lan a rhannau o Blasnewydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae galw cyfatebol am lefydd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg hefyd wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn ôl yr amcanestyniadau bydd y galw am lefydd yn ardal Cyncoed, Pen-y-lan a rhannau o Blasnewydd yn uwch na chapasiti'r ysgolion lleol mewn blynyddoedd i ddod.

Fel trefniant dros dro i ddiwallu'r galw, darparwyd llefydd ychwanegol mewn ysgolion yng Nghyncoed, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol ym mis Medi 2012 a mis Medi 2013. Fodd bynnag, nid yw'r llefydd ychwanegol yn yr ysgolion hyn wedi bod o fudd i deuluoedd yn ardal Pen-y-lan nad oedd yn gallu cael llefydd yn eu hysgol gynradd nhw. Mae trefniadau dros dro hefyd wedi'u darparu ar gyfer mis Medi 2014 sydd wedi galluogi mwy o blant Pen-y-lan i gael lle yn eu hysgol leol, fodd bynnag, dim ond gofod cyfyngedig sydd yno ac felly mae angen ateb parhaol.

Mewn ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Saesneg yng Nghyncoed, Pen-y-lan a rhannau o Blasnewydd, mae'r Cyngor nawr yn ymgynghori ar gynigion i ddarparu llefydd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg gyda'r bwriad o weithredu hyn o 2015 ymlaen.

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn amlinellu'r cynnig i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am addysg gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg.

## Y cynnig

Darparu digon o lefydd i ddiwallu'r galw cynyddol am addysg gymunedol cyfrwng Saesneg yn yr ardal leol drwy'r camau canlynol:

- Sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg â dau ddosbarth derbyn newydd yn gwasanaethu plant 3-11 oed ar ran o safle Canolfan Addysg Gymunedol Howardian, Hammond Way, Caerdydd CF23 9NB (Ysgol Uwchradd Howardian gynt) o fis **Medi 2015**
- Yr ysgol yn derbyn 60 o ddisgyblion i'r Flwyddyn Derbyn
- Yr ysgol i gynnwys hyd at 96 o lefydd meithrin rhan-amser
- Yr ysgol i gael ei sefydlu yn yr adeiladau presennol a/neu dros dro yn ystod y broses o adeiladu ysgol newydd.

Ar y dechrau bydd yr holl gyfleusterau ysgol fydd eu hangen ar gyfer oedrannau perthnasol y plant (h.y. dosbarthiadau meithrin a derbyn) ym mlwyddyn academaidd 2015-2016 wedi'u darparu ar safle Howardian, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol a/neu lety dros dro yn ôl yr angen.

# Dalgylch darpariaeth gynradd yng Nghyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd




**DARPARIAETH YSGOL GYNRADD YN GWASANAETHU CYNCOED, PEN-Y-LAN A PHLASNEWYDD.**

**Cynllun o ddalgylchoedd presennol Ysgolion Cynradd Lakeside, Marlborough, Rhydypenau a Pharc y Rhath (sydd, gyda'i gilydd yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd) ac ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal**


| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Dalgylch Ysgol Gynradd Lakeside | 2 | Dalgylch Ysgol Gynradd Marlborough |
| 3 | Dalgylch Ysgol Gynradd Rhydypennau | 4 | Dalgylch Ysgol Gynradd Parc y Rhath |

Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnansgyda chaniatâd rheolwr Hawlfraint y Goron Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniadau achosion sifil.

Cynhyrchwyd y copi hwn yn benodoli gyflenwi gwybodaeth y Cyngor. Ni chaniateir cynhyrchu rhagor o gopïau.

CYNGOR SIR CAERDYDD
Rhif Trwydded LA09005L

## Lleoliad y safle / Cynllun dangosol




## Rhestr o gyfleusterau arfaethedig yn yr ysgol newydd

Mae canllawiau Adran Addysg: Ardaloedd ar gyfer ysgolion prif ffrwd Bwletin Adeiladau 103: Ebrill 2014 yn nodi'r cyfleusterau canlynol i gynnwys:

Addysgu sylfaenol
Neuaddau, bwyta ac Addysg Gorfforol
Ardaloedd adnoddau dysgu
Staff a gweinyddu
Storio
Toiledau a gofal personol
Cyfleusterau cegin
Dosbarthu, plannu a waliau mewnol

Caiff unrhyw gynllun manwl o'r cyfleusterau yn yr ysgol newydd ei gytuno arno rhwng y Cyngor, corff llywodraethu dros dro a'r Pennaeth newydd os caniateir i'r cynnig fynd yn ei flaen.

Os rhoddir caniatâd i'r cynnig fynd rhagddo, gweler isod restr o gyfleusterau arfaethedig a gaiff ei hystyried fel rhan o ddyluniad yr ysgol newydd:

| | | |
|---|---|---|
| Ystafelloedd Dosbarth | Stiwdio | Swyddfa'r Pennaeth |
| Prif Neuadd | Ystafell Grŵp | Storfeydd |
| Ystafell Gyfarfod | Cegin/stordy/swyddfa | Cyfleusterau tai bach |
| Ystafell Grŵp/AAA | Derbynfa/swyddfa weinyddol | Cyfleusterau newid |
| Ystafell CPA/AAA | Ystafell DT/Bwyd | Ystafell Ymwelwyr/Aros |
| Cyfleusterau meithrin | Ystafell Cotiau | Ystafell Staff |

# Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd mae nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd yn gwasanaethu ardal Cyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd, eu capasiti, cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgolion hyn, y galw sy'n bodoli ar hyn o bryd am lefydd mewn ysgolion cynradd yn ardal Cyncoed, Pen-y-lan a rhannau o Blasnewydd, yr amcanestyniadau am brinder o ran nifer y llefydd ysgol gynradd sydd ar gael a'r modd y mae'r Cyngor yn cynnig mynd i'r afael â'r diffyg hwn.

**Capasiti, Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol**

Yn Nhabl 1 isod gwelir manylion capasiti yr ysgolion a gwybodaeth am gyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgolion.

| Enw'r Ysgol | Math o ysgol | Cyflwr/Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol | Capasiti (oedran 4-11) | Capasiti (meithrin – lleoedd rhan-amser) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 420 | 64 |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Boddhaol * | 438 | 80 |
| Ysgol Gynradd Marlborough | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 420 | 64 |
| Ysgol Gynradd Rhydypenau | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 462 | 80 |
| Ysgol Gynradd Parc y Rhath | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 412 | 64 |
| Ysgol y Berllan Deg | Cymunedol Cyfrwng Cymraeg | Boddhaol | 420 | 64 |
| Ysgol y Wern | Cymunedol Cyfrwng Cymraeg | Boddhaol | 450 | 64 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Yr Holl Seintiau | Gwirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 210 | AMH |
| Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin | Gwirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 210 | AMH |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant | Gwirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 211 | 38 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Monica | Gwirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 146 | AMH |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Pedr | Gwirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 540 | 78 |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Philip Evans | Gwirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg | Boddhaol | 365 | 80 |

* Mae gwelliannau i do Ysgol Gynradd Lakeside y tu allan i'r prosiect hwn.

Gellir gweld lleoliad pob un o'r ysgolion uchod ar y map ar dudalen 5.

**Y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg bresennol**
Mae dalgylchoedd ysgolion cynradd Lakeside, Marlborough, Rhydypenau, a Pharc y Rhath i gyd yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd (Cardiff High School).

Fel y gwelwyd mewn nifer o ardaloedd yng Nghaerdydd, mae nifer y disgyblion sy'n dechrau yn y flwyddyn Derbyn yn ardal Cyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pob un o'r pedair ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd (Lakeside, Marlborough, Rhydypenau, a Pharc y Rhath) wedi bod yn llawn ers sawl blwyddyn. Mae'r galw presennol a'r amcanestyniadau am alw yn y dyfodol am lefydd ysgol cymunedol cyfrwng Saesneg ym mhob un o'r dalgylchoedd ysgol gynradd hyn yn uchel. Ar hyn o bryd y nifer o lefydd Derbyn sydd ar gael yn y pedair ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yw 238.

Mae Ysgol Gynradd Albany mewn dalgylch ysgol uwchradd ar wahân (Ysgol Uwchradd Cathays). Er bod y galw am lefydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Albany wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw a ragwelir o'r dalgylch yn parhau yn is na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol. Mae'r cyflenwad o lefydd yn nalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn ddigonol i ddiwallu'r galw a rhagwelir y bydd hyn yn parhau.

**Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol**

Mae dalgylchoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn wahanol ond maent yn gorgyffwrdd â'r dalgylchoedd cyfrwng Saesneg. Lleolir yr ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ardal lle mae'r galw cynyddol lleol am lefydd cyfrwng Saesneg wedi amlygu'i hun.

Lleolir Ysgol y Berllan Deg yn Llanedern ac mae'n gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys Llanedern a rhannau o Gyncoed, Llanisien, Llys-faen, Pentwyn a Phlasnewydd. Lleolir Ysgol y Wern yn Llanisien ac mae'n gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys Llanisien a rhannau o Lys-faen, y Mynydd Bychan, Cyncoed, Rhiwbeina a Thongwynlais.

Mae Ysgol y Berllan Deg ac Ysgol y Wern yn nalgylchoedd ysgolion uwchradd Ysgol Bro Edern ac Ysgol Glantaf yn y drefn honno.

**Y ddarpariaeth Ysgol Ffydd bresennol**

Mae'r trefniadau derbyn a'r ardaloedd a gaiff eu gwasanaethu gan ysgolion Ffydd hefyd yn amrywio gyda'r teuluoedd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn defnyddio ysgolion sydd mewn ardaloedd cyfagos.

O ystyried yr holl ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd (gan gynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd) y nifer o lefydd sy'n gwasanaethu'r ardal gyfan yw 302.

**Gellir gweld map o ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd a'r dalgylchoedd ysgolion cynradd oddi mewn iddo ar dudalen 5.**

Mae Tabl 2 isod yn cymharu'r cyflenwad presennol o lefydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd gyda'r niferoedd mwyaf diweddar sydd wedi'u cadarnhau o ddisgyblion sydd wedi derbyn llefydd ysgol yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd.

| | Cyflenwad o lefydd oedran Derbyn yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd: Ionawr 2014 | | | | Niferoedd sydd wedi derbyn llefydd dosbarth Derbyn (mewn unrhyw ysgol): Ionawr 2013 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Ffydd | Cyfanswm y llefydd yn ôl ardal | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Ffydd | Cyfanswm y galw yn ôl ardal |
| Dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi'i gyfuno | 238 | 35(a) | 29(b) | **302** | 240 | 29 | 20 | **289** |

(a) Yn seiliedig ar alw diweddar am lefydd, amcangyfrifir mai hyd at 35 o lefydd o'r 120 o lefydd sydd ar gael yn Ysgol y Wern ac Ysgol y Berllan Deg gyda'i gilydd sy'n cael eu llenwi gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae'r ddwy ysgol hon yn gwasanaethu dalgylchoedd y tu hwnt i Gyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd a daw 85 o'r disgyblion hynny sy'n weddill o'r dalgylchoedd hyn.

(b) Yn seiliedig ar alw diweddar am lefydd, amcangyfrifir mai hyd at 29 o lefydd o'r rheini sydd ar gael ym mhob ysgol Ffydd sy'n gwasanaethu'r ardal sy'n cael eu llenwi gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn gwasanaethu ardaloedd y tu allan i Gyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd a daw gweddill y disgyblion o'r ardaloedd hyn.

Mae'r nifer y lefydd cymunedol cyfrwng Saesneg a lenwyd yn ardal ogleddol y dalgylch a wasanaethir gan Ysgolion Cynradd Lakeside a Rhydypenau wedi cynyddu o 98 o ddisgyblion yn y grŵp oedran Derbyn yn 2009 i 108 o ddisgyblion yn 2013. Mae Lakeside a Rhydypenau ill dwy yn darparu 60 o lefydd ar lefel Derbyn.

Mae'r nifer y lefydd cymunedol cyfrwng Saesneg a lenwyd yn ardal ddeheuol y dalgylch a wasanaethir gan Ysgolion Cynradd Marlborough a Pharc y Rhath wedi cynyddu gan gyfran uwch, o 92 o ddisgyblion yn y grŵp oedran Derbyn yn 2009 i 132 o ddisgyblion yn 2013. Mae Marlborough a Pharc y Rhath ill dwy yn darparu 60 a 58 o lefydd ar lefel Derbyn. Felly mae cyfran sylweddol o ddisgyblion yn byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Marlborough ac Ysgol Gynradd Parc y Rhath.

Gwelwyd cyfnod o gynnydd cyson yng nghyfran y galw am lefydd dosbarth Derbyn mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Marlborough a Pharc y Rhath o 70.8 % ym mis Ionawr 2011 i 77.6 % ym mis Ionawr 2013. Ni welwyd newid parhaus yn y galw am lefydd cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Lakeside a Rhydypenau gyda'i gilydd.

Yn yr ardal gyfan, syrthiodd y gyfran o ddisgyblion oedran Derbyn wedi'u cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 15.5 % ym mis Ionawr 2008 i 11.7 % ym mis Ionawr 2011 gan syrthio ymhellach i 10 % ym mis Ionawr 2013. Amrywiodd y gyfran o ddisgyblion oedran Derbyn wedi'u cofrestru mewn ysgolion Ffydd o 4.8 % a 11.7 % yn ystod y cyfnod 2007 – 2013.

Darparwyd llefydd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn Ysgolion Cynradd Lakeside a Rhydypenau ym mis Medi 2012 a mis Medi 2013 er mwyn cynorthwyo'r disgyblion yn y dalgylchoedd hynny ac mewn dalgylchoedd cyfagos. Ni fu hyn o fudd uniongyrchol i lawer o ddisgyblion yn nalgylchoedd Marlborough a Pharc y Rhath gan mai disgyblion o Bentwyn a Phontprennau, sy'n byw'n agosach at yr ysgolion, a lenwodd y llefydd.

Cafodd teuluoedd sy'n byw yn nalgylch Marlborough nad oedd yn gallu cael lle yn yr ysgol honno wybod am lefydd oedd ar gael mewn dalgylchoedd cyfagos, gan gynnwys Ysgolion Cynradd Llanedern, Springwood, Baden Powell ac Allensbank. (Nid yw'r ysgolion hyn yn dod o dan ddalgylch Ysgol Uwchradd Cathays).

Caniataodd y Cyngor i hyd at 90 o ddisgyblion gael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn yn Ysgol Gynradd Marlborough ar gyfer mis Medi 2014, ac roedd yr ysgol hon yn llawn yng nghylch cyntaf y derbyniadau. Nid oes modd cynnal 3 dosbarth derbyn parhaol ar safle Ysgol Gynradd Marlborough.

Os na fydd y cynnig i agor ysgol newydd ar safle Howardian yn mynd rhagddo o fis Medi 2015 ymlaen, disgwylir y bydd nifer y disgyblion sy'n dymuno cael llefydd cyfrwng Saesneg yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael. Efallai bydd y disgyblion hynny sy'n methu â chael lle mewn ysgolion yn yr ardal leol yn chwilio am lefydd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion mewn rhannau eraill o'r ddinas neu'n gwneud cais am le mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Ffydd sy'n gwasanaethu'r ardal leol.

# Y galw am lefydd yn y dyfodol

**Diwallu'r galw a ragwelir gan boblogaeth sy'n tyfu**

Mae amcanestyniadau sy'n seiliedig ar ddata'r GIG a gafwyd yn 2013 yn dangos y bydd nifer y disgyblion sy'n mynd i ddosbarthiadau Derbyn cymunedol cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu yn y blynyddoedd i ddod, hyd at fis Medi 2016 o leiaf, sef y flwyddyn ddiwethaf y darperir data ar ei chyfer. Er mwyn cyfrif y galw tebygol am lefydd ysgol, defnyddiwyd tueddiadau hanesyddol penodol ar gyfer y dalgylchoedd ysgol sefydledig.

Mae Tabl 3 isod yn amlinellu'r galw am lefydd dosbarth Derbyn pe bai cyfran y disgyblion yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd sydd angen llefydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd ar lefel dosbarth Derbyn mewn blynyddoedd i ddod yn parhau ar yr un lefelau ag a welwyd yn 2013.

**Tabl 3: Niferoedd a ragwelir o ddisgyblion grŵp oedran Derbyn yn byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd (yn seiliedig ar ffigurau tai presennol) pe na fyddai unrhyw newid i'r galw cyfatebol ym mhob un o'r dalgylchoedd ysgol gynradd**

| Blwyddyn Geni Academaidd | Blwyddyn Academaidd: mynd mewn i flwyddyn Derbyn | Poblogaeth disgyblion a ragwelir | Galw a ragwelir am lefydd cyfrwng Saesneg | Galw a ragwelir am lefydd cyfrwng Cymraeg | Galw a ragwelir am lefydd Ffyrdd | Cyfanswm y galw a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008/2009 | 2013/2014 | 326 | 247 | 30 | 21 | **298** |
| 2009/2010 | 2014/2015 | 353 | 266 | 34 | 23 | **323** |
| 2010/2011 | 2015/2016 | 381 | 287 | 37 | 25 | **349** |
| 2011/2012 | 2016/2017 | 394 | 300 | 36 | 24 | **360** |

Mae data'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer 2014 wedi'i ryddhau yn ddiweddar ac mae'r dadansoddiad cychwynnol yn cadarnhau bod poblogaeth dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn gyson, ar y cyfan, â'r hyn a ddarparwyd mewn setiau data blaenorol ac y bydd poblogaeth y disgyblion oed Derbyn a ragwelir yn 2017/18 yn debyg i 2016/17.

Caiff yr amcanestyniadau eu diweddaru pan fydd y gwaith o ddilysu a dadansoddi data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer 2014 (sydd wedi'i ddarparu gan yr ysgolion) wedi'i gwblhau; fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r data ddynodi gwahaniaeth sylweddol i'r tueddiadau diweddar yn y nifer y lefydd a lenwir.

Oherwydd y bu'r pedair ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn llawn ar lefel Derbyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r amcanestyniadau yn adlewyrchu'r niferoedd sydd wedi derbyn llefydd ym mhob un o'r ysgolion hyn. Mae hyn wedi'i gapio ar nifer y llefydd sydd ar gael, sef 238. Felly mae'n anodd asesu cyfanswm y galw am lefydd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal hon.

Gall disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Marlborough a Pharc y Rhath, nad ydynt yn gallu cael lle yn yr ysgol sydd yn eu dalgylch nhw, wneud cais am lefydd mewn ysgolion eraill mewn dalgylchoedd cyfagos. Fodd bynnag, mae nifer o'r ysgolion hyn, gan gynnwys ysgolion cynradd Albany, Stacey, Gladstone a Lakeside wedi bod yn llawn ar lefel mynediad yn y blynyddoedd diwethaf.

**Sut gallai'r galw newid?**

Mae data am y boblogaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn rhagweld y bydd nifey disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd a fydd yn mynd i'r dosbarth derbyn yn y blynyddoedd nesaf yn yr ardal hon yn uwch nag ar hyn o bryd.

Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae'r data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a ddarperir gan Ysgolion yn cadarnhau bod y gyfran o ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Felly, mae'r amcanestyniadau ar gyfer yr ardal yn ystyried dwy senario posibl:

- Bydd cyfran y galw am ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd yn parhau ar y lefelau presennol
- Neu, bydd cyfran y galw am lefydd cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu yn ardaloedd Marlborough a Pharc y Rhath ac felly bydd y galw am ysgolion cyfrwng Cymraeg a Ffydd yn lleihau yn unol â hynny.

Mae Tabl 4 isod yn ystyried y ddwy senario ac yn cynnig amrywiaeth yn y galw am lefydd cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd.

**Tabl 4: Niferoedd mynediad a ragwelir i flwyddyn Derbyn yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd, gan ystyried y ddwy senario a chynnig amrywiaeth yn y galw am lefydd cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Ffydd.**

| Blwyddyn Geni Academaidd | Blwyddyn Academaidd: mynd mewn i flwyddyn Derbyn | Galw am lefydd cyfrwng Saesneg (238 o lefydd ar gael) | Galw am lefydd cyfrwng Cymraeg (35 o lefydd ar gael) | Galw am lefydd Ffydd (29 o lefydd ar gael) | Cyfanswm y galw: cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg, Ffydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008/2009 | 2013/2014 | 247-252 | 27-30 | 19-21 | 298 |
| 2009/2010 | 2014/2015 | 266-278 | 28-34 | 17-23 | 323 |
| 2010/2011 | 2015/2016 | 287-308 | 26-37 | 15-25 | 349 |
| 2011/2012 | 2016/2017 | 300-325 | 23-36 | 12-24 | 360 |
| 2011/2012 | 2017/2018 | 300-325 | 23-36 | 12-24 | 360 |

Wrth gymharu nifer y llefydd sydd ar gael ar gyfer oedran Derbyn, mae'r amcanestyniadau sy'n ystyried y cynnydd yn y galw am lefydd cyfrwng Saesneg a'r lleihad yn y galw am lefydd cyfrwng Cymraeg a/neu Ffydd yn dynodi'r lefelau canlynol o lefydd gwag:

- Hyd at 12 o lefydd gwag cyfrwng Cymraeg yn gwasanaethu dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn seiliedig ar dueddiadau diweddar
- Hyd at 17 o lefydd gwag Ffydd yn gwasanaethu dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn seiliedig ar dueddiadau diweddar

Mae hyn yn rhagweld prinder llefydd yn nalgylchoedd ysgol Uwchradd Caerdydd y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef, sef:

- Mae'r galw am ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn sylweddol uwch na'r llefydd sydd ar gael, gan 62 o lefydd, gan gynyddu i 87 os bydd y galw yn parhau i gynyddu ar sail y tueddiadau/patrymau diweddar.

Cynigir felly bod y Cyngor yn sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd â 2 ddosbarth derbyn yn darparu 60 o lefydd ychwanegol ym mhob grŵp blwyddyn er mwyn ateb y prinder a ragwelir. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r galw cynyddol am lefydd mewn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg.

## Beth fyddai'r effaith ar y ddarpariaeth feithrin?

Mae gan blant yng Nghaerdydd hawl i le meithrin rhan-amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair a rhaid iddynt fynychu am bum hanner diwrnod o leiaf. Ni chaiff llefydd meithrin eu dyrannu yn ôl dalgylch. Pan fo'n bosibl caiff llefydd eu cynnig mewn dosbarth meithrin neu ysgol feithrin gymunedol leol o fewn dwy filltir i gartref y plentyn. Os nad oes llefydd ar gael mewn dosbarthiadau meithrin neu ysgolion meithrin cymunedol lleol gall rhieni wneud cais am le mewn addysg feithrin â chymorth ariannol. Bydd y llefydd hyn wedi'u darparu gan ddarparwr cydnabyddedig wedi'i bennu gan Grŵp Llywio Blynyddoedd Cynnar Caerdydd.

Bu'n rhaid i'r Awdurdod Lleol brynu nifer cynyddol o lefydd addysg meithrin cyfrwng Saesneg yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn cynnydd mewn tai a genedigaethau. Hefyd, nid yw rhai teuluoedd wedi manteisio ar y llefydd a gynigwyd iddynt, sy'n golygu bod posibilrwydd y gall y galw fod yn uwch na'r llefydd sydd ar gael ac y byddai unrhyw lefydd ychwanegol yn golygu bod mwy o lefydd meithrin yn rael eu llenwi.

Bu'n anodd dod o hyd i lefydd digonol mewn lleoliadau sydd wedi'u cymeradwyo er mwyn darparu llefydd addysg mewn ardaloedd y mae rhieni wedi gofyn amdanynt a/neu ddod o hyd i ddarparwyr newydd sy'n fodlon contractio gyda'r Awdurdod Lleol mewn rhai ardaloedd.

Er y gallai llefydd meithrin ychwanegol olygu llai o lefydd yn cael eu prynu yn y sectorau gofal plant preifat a gwirfoddol, mae nifer hefyd yn darparu llefydd cofleidiol a gallai'r cyfleoedd ar gyfer hyn gynyddu gyda nifer uwch o deuluoedd yn defnyddio'r ddarpariaeth a gynhelir ar gyfer sesiynau rhan-amser.

## Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?

Rhagwelir na fyddai'r cynllun arfaethedig i sefydlu ysgol gynradd newydd gyda 2 ddosbarth derbyn ar safle Howardian yn cael fawr o effaith, os o gwbl, ar nifer y disgyblion ar y gofrestru ym mwyafrif yr ysgolion yn yr ardal leol (o'u cymharu â'r niferoedd presennol ar y gofrestr) gan y byddai'r llefydd ychwanegol a gynigir yn angenrheidiol er mwyn diwallu'r galw a ragwelir gan y boblogaeth sy'n cynyddu.

Yn ystod y cyfnod trosiannol pan fydd cyfran uwch o lefydd gwag yn parhau ar gael yn yr ysgol newydd, rhagwelir y gallai nifer fach o ysgolion mewn ardaloedd cyfagos gael eu heffeithio gan niferoedd mynediad llai yn ystod blwyddyn ysgol 2015/16.

Mae'r galw a ragwelir am lefydd cyfrwng Saesneg yn y flwyddyn Derbyn yn 2015/16 rhwng 287 a 308 o lefydd ledled dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Byddai'r cynnig arfaethedig i ychwanegu 60 o lefydd blwyddyn Derbyn yn yr ysgol newydd yn cynyddu nifer y llefydd cyfrwng Saesneg sydd ar gael i 298 gan arwain at hyd at 11 o lefydd gwag cyfrwng Saesneg.

Byddai angen sefydlu dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig ac o ganlyniad byddai angen newid dalgylch(oedd) Ysgolion Cynradd Marlborough a/neu Barc y Rhath. Er y gall y galw am lefydd yn yr ysgolion poblogaidd hyn leihau, efallai na fyddai hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer y disgyblion fydd wedi'u cofrestru yn yr ysgolion gan y gallai nifer y dewisiadau penodol a gyflwynwyd gan rieni ar gyfer yr ysgolion hyn barhau i fod yn uwch na'r nifer o lefydd sydd ar gael.

Os bydd yr ysgol newydd yn derbyn y niferoedd llawn ar gyfer blwyddyn Derbyn 2015/16, yn ôl y amcanestyniadau, dim ond 11 yn llai o ddisgyblion a fydd angen mynediad i ysgolion eraill. Mae'n debygol y bydd yr effaith wedi'i rhannu ar draws nifer o ysgolion ac felly byddai'r effaith ar bob un ysgol yn fach.

Gellid ystyried mai'r ysgolion hynny sy'n agos iawn neu sydd mewn dalgylchoedd cyfagos ac nad ydynt yn llawn ar hyn o bryd (neu le na fydd y galw a ragwelir yn fwy na'r llefydd sydd ar gael) yw'r ysgolion sydd fwyaf tebygol o weld effaith yn sgil y nifer llai ar y gofrestr o ryw 11 o ddisgyblion, fodd bynnag, gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf, bydd y galw am lefydd yn cynyddu yn yr un modd. Bydd y galw felly'n fwy na nifer y llefydd sydd ar gael yng Nghyncoed, Pen-y-lan a rhannau o Blasnewydd. Nid oes disgwyl y bydd y niferoedd a ragwelir o ddisgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion cyfagos neu mewn dalgylchoedd cyfagos yn cael eu heffeithio o'u cymharu â'r trefniadau presennol.

Mae Tabl 5 isod yn dangos nifer y disgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ac ysgolion mewn ardaloedd cyfagos a'r niferoedd o ddisgyblion a ragwelir ar y gofrestr pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo fel y disgrifir.

**Tabl 5: Niferoedd diweddar a niferoedd a ragwelir ar y gofrestr mewn ysgolion cynradd lleol pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo fel y disgrifir**

| Ysgol | A ddisgwylir i'r ysgol newydd arfaethedig effeithio ar yr ysgol hon? | Ionawr 2009 | Ionawr 2010 | Ionawr 2011 | Ionawr 2012 | Ionawr 2013 | Ionawr 2014 | Amcanestyniad 2013/2014 | Amcanestyniad 2015/2016 | Amcanestyniad 2016/2017 | Amcanestyniad 2017/2018 | Amcanestyniad 2018/2019 | Amcanestyniad 2019/2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol gynradd newydd arfaethedig** | **Ie** | | | | | | | | **49** | **109** | **169** | **229** | **289** |
| Ysgol Gynradd Albany | Na | 361 | 386 | 400 | 395 | 397 | 411 | 410 | 414 | 416 | 418 | 419 | 419 |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Na | 415 | 411 | 421 | 418 | 442 | 444 | 445 | 447 | 444 | 428 | 424 | 424 |
| Ysgol Gynradd Marlborough | Ie | 0 | 0 | 0 | 452 | 451 | 435 | 468 | 472 | 474 | 479 | 475 | 475 |
| Ysgol Gynradd Rhydypenau | Na | 422 | 420 | 420 | 420 | 421 | 450 | 451 | 452 | 452 | 452 | 451 | 451 |
| Ysgol Gynradd Parc y Rhath | Ie | 364 | 388 | 405 | 403 | 406 | 415 | 415 | 421 | 421 | 420 | 420 | 420 |
| Ysgol y Berllan Deg | Na | 370 | 380 | 389 | 390 | 390 | 394 | 391 | 393 | 393 | 393 | 392 | 392 |
| Ysgol y Wern* | Na | 381 | 384 | 387 | 395 | 403 | 432 | 443 | 451 | 466 | 469 | 480 | 480 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints | Na | 157 | 168 | 165 | 171 | 172 | 184 | 192 | 191 | 190 | 187 | 182 | 182 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Christ The King | Na | 211 | 217 | 226 | 221 | 235 | 242 | 239 | 237 | 237 | 223 | 222 | 222 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St David's | Na | 205 | 204 | 202 | 200 | 208 | 207 | 209 | 209 | 208 | 206 | 205 | 205 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Monica's | Na | 90 | 84 | 109 | 115 | 108 | 116 | 117 | 126 | 134 | 141 | 145 | 145 |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Peter's RC | Na | 425 | 428 | 434 | 443 | 463 | 464 | 471 | 476 | 478 | 481 | 487 | 487 |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Philip Evans | Na | 361 | 386 | 400 | 395 | 397 | 411 | 410 | 414 | 416 | 418 | 419 | 419 |
| **Ysgolion mewn ardaloedd cyfagos** | | | | | | | | | | | | | |
| **Ysgol Gynradd Baden Powell, Tremorfa** | Na | 323 | 311 | 325 | 328 | 332 | 371 | 397 | 419 | 421 | 422 | 422 | 422 |
| **Ysgol Gynradd Stacey, Y Rhath** | Na | 177 | 179 | 174 | 185 | 184 | 197 | 200 | 203 | 203 | 204 | 204 | 204 |
| **Ysgol Gynradd Llanedern, Llanedern** | Na | 246 | 239 | 244 | 270 | 263 | 293 | 314 | 327 | 324 | 323 | 318 | 318 |
| **Ysgol Gynradd Springwood, Llanedern** | Na | 151 | 160 | 154 | 129 | 160 | 158 | 163 | 177 | 186 | 176 | 183 | 183 |
| **Ysgol Gynradd Allensbank, y Mynydd Bychan** | Na | 148 | 139 | 165 | 218 | 231 | 242 | 247 | 267 | 270 | 286 | 272 | 272 |
| **Ysgol Gynradd Bryn Hafod, Llanrhymni** | Na | 271 | 257 | 265 | 298 | 290 | 282 | 281 | 307 | 311 | 316 | 316 | 316 |

*Ymgynghorwyd ar gynnig ar wahân i ddarparu 15 lle ychwanegol yn Ysgol Y Wern o fis Medi 2015. Mae'r data uchod ar sail cadw'r trefniadau presennol.

** Disgwylir i'r effaith ar Ysgol Gynradd Marlborough ac Ysgol Gynradd Parc y Rhath gynnwys newidiadau i'r dalgylchoedd y mae'r ysgolion yn eu gwasanaethu. O ganlyniad, byddai disgwyl i rai o'r disgyblion gael eu derbyn i bob un o'r ysgolion hyn o ardaloedd gwahanol o gymharu â'r disgyblion hynny a all fod wedi'u derbyn pe bai'r cynnig heb ei weithredu.

Mae'r amcanestyniadau ar gyfer pob un o'r ysgolion uchod, ac eithrio'r ysgol newydd arfaethedig, yn cynrychioli'r amcanestyniadau fel pe na bai'r cynnig am fynd yn ei flaen a hefyd pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Os na fyddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, gallai'r disgyblion hynny nad ydynt yn gallu cael eu derbyn oherwydd gordanysgrifio ddewis mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg gwahanol, ysgolion cyfrwng Cymraeg, Ffydd, ysgolion preifat, neu ysgolion y tu allan i Gaerdydd ac at ddibenion eglurder nid ydynt wedi'u hychwanegu at y Niferoedd ar y Gofrestr mewn ysgolion eraill.

Nid yw'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar ddata cofrestriadau Meddygon Teulu y tu hwnt i 2017 ar gael eto ac felly mae'n anodd asesu'r effaith hirdymor ar ysgolion; fodd bynnag nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd sy'n awgrymu lleihad yn y galw cyffredinol am lefydd ysgol.

## Trefniadau dros dro

Ar y dechrau bydd yr holl gyfleusterau ysgol fydd eu hangen ar gyfer plant o'r ystod oedrannau perthnasol (h.y. dosbarthiadau meithrin a derbyn) yn y flwyddyn academaidd 2015-16, yn cael eu darparu ar safle Howardian gan ddefnyddio'r adeiladau presennol a/neu adeiladu dros dro fel y bo'n briodol. Byddai angen cynnal gwerthusiad llawn i asesu lefel y buddsoddiad sydd ei angen.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn brofiadol ym maes prosiectau adeiladu llwyddiannus ar safleoedd ysgolion/cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio. Mae ei lwyddiannau yn deillio o raglen trefniadaeth ysgolion sy'n datblygu'n gyson. Byddai gwaith adeiladu yn cael ei gynnal ar y safle a fydd yn cael ei reoli'n effeithiol gan dîm rheoli'r ysgol newydd er mwyn sicrhau y gall y plant dderbyn cwricwlwm llawn yn yr ysgol a bod safonau addysgol yn cael eu cynnal a safonau diogelwch yn cael eu bodloni.

## Beth fyddai'r effaith ar ysgolion uwchradd?

Bydd cynigion yn cael eu rhoi ar waith mewn da bryd i sicrhau y bydd digon o lefydd i ddiwallu'r galw am lefydd ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd.

## Beth fyddai'r effaith ar wasanaethau eraill?

Y Cyngor sy'n berchen ar safle Howardian, ac ar hyn o bryd caiff ei ddefnyddio i ddarparu ystod o wasanaethau gan gynnwys dosbarthiadau Dysgu Oedolion a'r Gymuned, Canolfan Ieuenctid, cyfleusterau cyfarfod mawr a rhywfaint o swyddfeydd.

Mae'r Cyngor yn cynnal dosbarthiadau Dysgu Oedolion a'r Gymuned mewn 19 o ganolfannau ledled y ddinas mewn amrywiaeth o adeiladau gan gynnwys llyfrgelloedd, neuaddau, canolfannau cymunedol, eglwysi ac ysgolion. Mae astudiaethau dichonoldeb cychwynnol yn dangos cyfle i leoli'r ysgol newydd arfaethedig yn y fath fodd fel y gellir parhau i ddefnyddio Canolfan Howardian ac felly y bydd ar gael ar gyfer Dysgu Oedolion a'r Gymuned. Fodd bynnag, mae'r safle wedi'i nodi ar gyfer datblygiad posibl o dan Raglen Partneriaeth Tai. Er na ragwelir, ar hyn o bryd, y byddai datblygiad o'r fath yn digwydd cyn 2018, byddai angen ystyried hyn er mwyn sicrhau lleoliad ar gyfer Dysgu i Oedolion a'r Gymuned.

Byddai gweithredu'r cynnig hwn yn llawn yn golygu dymchwel y Ganolfan Ieuenctid bresennol ond gellid defnyddio'r adeiladau hyn am gyfnod dros dro os ystyrir mai'r rhain yw'r rhan fwyaf addas o'r safle i leoli'r dosbarth dechreuol wrth i'r ysgol gael ei hadeiladu.

Ar hyn o bryd, caiff Cynllun Dug Caeredin ar gyfer Caerdydd ei reoli'n ganolog o Ganolfan Ieuenctid Howardian. Mae'r Cynllun yn storio cryn dipyn o offer awyr agored ar y safle mewn dwy storfa fawr. Fodd bynnag, gellid adleoli hyn ac mae digon o amser i wneud hyn yn effeithiol os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen gyda'r cynnig hwn.

Ar hyn o bryd, caiff y Clwb Ieuenctid ei gynnal am sawl noswaith yr wythnos a defnyddir y stiwdio gerdd ym mhrif adeilad Howardian yn helaeth gan y Gwasanaethau Ieuenctid. Hefyd, mae grŵp Cynhwysiant Ieuenctid yn defnyddio'r Ganolfan Ieuenctid unwaith yr wythnos. Yn ogystal, mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn defnyddio'r Ganolfan Ieuenctid bob dydd rhwng 9am a 3pm i gynnal sesiynau.

Petai'r Ganolfan Ieuenctid yn cael ei dymchwel fel rhan o'r cynnig hwn, mae'n bosibl y bydd Canolfan Howardian ar gael am gyfnod dros dro. Os bydd y cynnig am ysgol newydd yn mynd rhagddo, byddai modd ystyried y posibiliadau ar gyfer ei defnyddio gan y gymuned gan gynnwys ar gyfer gweithgareddau Ieuenctid.

Ar hyn o bryd, mae dyfodol darpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid o safle Howardian ac ar draws y ddinas yn cael ei ystyried. Yn ddiweddarach eleni, disgwylir i'r Cabinet ystyried papur opsiynau yn amlinellu sut y gellid darparu Gwasanaethau Ieuenctid ledled Caerdydd yn y dyfodol (gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau trosiannol o'r ddarpariaeth bresennol i unrhyw fodel newydd o ddarpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid).

Byddai angen adleoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion cyn mis Medi 2015.

## Ansawdd a Safonau

Byddai'r cynnig yn golygu y byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau modern o ansawdd uchel a fydd yn sail i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys gan gynnwys gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen llawn. Byddai'r cynnig arfaethedig i sefydlu ysgol newydd yn addas i'r 21ain Ganrif yn cynnig cyfleoedd gyrfa atyniadol a chyffrous a disgwylir felly y bydd yr ysgol newydd yn denu arweinyddiaeth, rheolaeth ac addysgu o'r radd flaenaf. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar ansawdd a safonau addysg na chyflwyniad y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion cynradd cymunedol eraill yn yr ardal.

Mae Estyn a'r Awdurdod Lleol yn monitro ansawdd a safonau mewn ysgolion yng Nghaerdydd.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Corff y Goron yw Estyn, wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Addysg 1992 ac mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn derbyn ei arian gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Ers sefydlu Consortiwm Canol De Cymru ym mis Medi 2012, mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu'r Consortiwm i gefnogi a hwyluso gwelliannau yn ysgolion Caerdydd. Byddai unrhyw ysgolion newydd hefyd yn cael budd o'r gwasanaethau hyn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu cyfleoedd dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.

**Estyn**
Mae adroddiadau Estyn ar ôl mis Medi 2010 yn rhoi dyfarniadau yn erbyn Cwestiynau Allweddol gan roi argymhellion i bob ysgol ar gyfer gwella.

Rhoddir dyfarniad ar gyfer pob Cwestiwn Allweddol:
Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol – Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Fel arfer bydd Estyn yn arolygu ysgol newydd pan fydd o leiaf un set o ddata asesiadau neu arholiadau diwedd cyfnod allweddol ar gael.

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth sy'n deillio o arolygiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer Ysgolion Cynradd Marlborough a Pharc y Rhath gan fod y galw am lefydd ysgol yn ardal ddeheuol dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Gellir gweld yr adroddiadau a'r crynodebau ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk.

**Yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru**
Darperir gwybodaeth am ansawdd a safonau ysgolion Caerdydd yn adroddiad Perfformiad Ysgolion a Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn flynyddol. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ym mis Ionawr 2014.

Ers mis Medi 2012, Consortiwm Canol De Cymru sydd wedi darparu Gwasanaethau Gwella Ysgolion y Cyngor. Mae'r Consortiwm yn cynrychioli Gwasanaethau Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol, sef Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff pob ysgol ei chategoreiddio yn ôl pedwar categori (A-D) ac fe gaiff hyn ei adolygu bob blwyddyn:

A: Ysgol o berfformiad uchel gyda llawer o enghreifftiau o arferion da ac arferion posibl sy'n rhoi arweiniad i'r sector – does dim angen cymorth ychwanegol
B: Ysgol sy'n perfformio'n dda gyda'r angen am welliannau mewn rhai meysydd – efallai bydd angen cymorth allanol
C: Ysgol â pherfformiad amrywiol mewn ystod o ddangosyddion neu sydd angen gwelliannau, dros amser, mewn nifer o feysydd pwysig – angen cymorth ychwanegol dros amser.
D: Ysgol sy'n tanberfformio gyda gwendidau sylweddol ar draws ystod eang o feysydd – angen cymorth ychwanegol dwys

Bydd Ymgynghorydd Her o'r Consortiwm yn cefnogi'r ysgol newydd pan gaiff ei sefydlu.

Mae Tabl 6 isod yn dangos dyfarniadau ac argymhellion Estyn, categori'r Consortiwm a data'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

| | Adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Marlborough Ionawr 2013 | Adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Parc y Rhath Chwefror 2011 |
|---|---|---|
| **Cwestiynau Allweddol** | **Dyfarniad** | **Dyfarniad** |
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** | **Da** |
| Safonau | Da | Da |
| Lles | Da | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** | **Da** |
| Profiadau dysgu | Da | Da |
| Addysgu | Digonol | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da | Da |
| Amgylchedd Dysgu | Da | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?** | **Da** | **Da** |
| Arweinyddiaeth | Da | Da |
| Gwella ansawdd | Da | Da |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da | Da |
| Rheoli adnoddau | Da | Da |
| **Argymhellion** | | |
| A1 | Parhau i wella safonau'r disgyblion mewn datblygiad mathemategol ac ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen | Mynd i'r afael â thanberfformiad cymharol merched yng nghyfnod allweddol 2 (CA2) ar Lefel 5; |
| A2 | Sicrhau bod anghenion y disgyblion mwyaf abl yn cael eu diwallu | Parhau i fireinio gweithdrefnau asesu er mwyn adnabod disgyblion, gan gynnwys y disgyblion mwy abl a thalentog a fyddai'n elwa o gefnogaeth â mwy o ffocws; |
| A3 | Gwella ansawdd yr addysgu mewn lleiafrif o ddosbarthiadau | Gwella trefniadaeth ac ansawdd yr addoli ar y cyd ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen a CA1 fel bod mwy o bwyslais ar ddatblygu eu synnwyr o ryfeddod a gwerthfawrogiad o ddimensiwn ysbrydol bywyd |
| A4 | Datblygu dulliau mwy cyson ar gyfer monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu | Cymryd camau i rannu'r arferion rhagorol o ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u lle yn y gymuned ehangach a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion y byd. |
| **Categori Consortiwm 2013/2014** | **B** | **B** |
| * Disgyblion yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig ym meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn 2013 | 90.5 % | 89.8 % |
| * Disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2013. | 85.7 % | 84.6 % |
| * Presenoldeb yn 2013 | 95.3 % | 94.9 % |

* mae rhagor o wybodaeth ar wefan: http://fysgyolleol.cymru.gov.uk/index.html?iaith=cym

Mae Tabl 7 isod yn dangos canran disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), sy'n cael Prydau ysgol am Ddim ac sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol a'r disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn Ysgol Gynradd Marlborough ac Ysgol Gynradd y Rhath.

| 2013 | | Ysgol Gynradd Marlborough | Ysgol Gynradd Parc y Rhath | Awdurdod Lleol | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran Disgyblion ag AAA | Gweithredu gan yr Ysgol<br>Gwithredu gan yr Ysgol a Mwy<br>Â datganiad | 6.9 %<br>1.5 %<br>5.7 % | 9 %<br>9 %<br>2 % | 17.1 %<br>6.4 %<br>1.8 % | 15.2 %<br>9.2 %<br>1.7 % |
| Canran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim – cyfartaledd 3 blynedd | | 10.7 % | 12.5 % | 23.4 % | 20.8 % |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | | 19.8 % | 43.9 % | 19.4 % | 5.1 % |
| Canran disgyblion o leiafrifoedd ethnig | | 32.2 % | 58.4 % | 30.8 % | 9.4 % |

* mae rhagor o wybodaeth ar wefan: http://fyysgolleol.cymru.gov.uk/index.html?iaith=cym

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n andwyol ar Ansawdd a Safonau'r ysgolion presennol.

## Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?

Disgwylir y manteision canlynol o'r cynnig hwn:

- Digon o le i ateb y galw cynyddol am addysg gymunedol cyfrwng Saesneg yn yr ardal leol;
- Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau modern o ansawdd uchel a fydd yn sail i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys;
- O'u cymharu ag ysgolion llai, mae graddfa ysgol gynradd â 2 ddosbarth derbyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion yn sgil sylfaen adnoddau ariannol estynedig a diogel;
- Gall ysgol â 2 ddosbarth derbyn gynnig mwy o sicrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth gan gynnwys cynnal tîm llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol;
- Byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a staff cynorthwyol yn caniatáu i'r ysgol â 2 ddosbarth derbyn gwmpasu ystod ehangach o arbenigeddau cwricwlwm;

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fynegir mewn saith nod craidd sy'n datgan bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. yn cael dechrau teg mewn bywyd
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
4. yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
5. yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
6. yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydym o'r farn fod y cynnig hwn o fudd i blant y gymuned yn unol â'r saith nod craidd uchod.

## Anfanteision posibl y cynnig hwn

Cynnydd posibl mewn tagfeydd traffig o amgylch safleoedd yr ysgol adeg dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw drafferthion posibl.

Gall y newidiadau i swyddogaeth yr adeiladau presennol ac unrhyw adeiladau newydd achosi rhywfaint o drafferthion, er yn ôl profiad blaenorol, gwelir bod modd cadw hyn i isafswm ac ni fydd addysg y plant yn dioddef.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn

Nid oedd adeiladu ysgol gynradd â 2 ddosbarth derbyn newydd wedi'i gynnwys yng nghynnig gwreiddiol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac felly bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth ofyn i Lywodraeth Cymru am gadarnhad eu bod yn fodlon i'r cynllun hwn gael ei ychwanegu at y Rhaglen.

Rhaid i'r Cyngor ystyried y risg na fyddai'r galw am lefydd yn dilyn y patrymau a ragwelir ac y gallai'r galw barhau i gynyddu neu syrthio yn ôl i'r lefelau blaenorol. Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei ragolygon yn barhaus ac ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath mewn galw yn unol â hynny.

Bydd angen adolygu ac efallai adleoli'r gwasanaethau sy'n gweithredu ar safle Howardian, fel y Ganolfan Ieuenctid.

## Dewisiadau amgen a ystyriwyd

**Y sefyllfa bresennol – dim newidiadau i adeiladau ysgol na dalgylchoedd**

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Argaeledd llefydd ysgol**<br>Ni fyddai rhai plant yn nalgylch Marlborough a Pharc y Rhath yn gallu mynychu Marlborough a/neu'r Rhath a byddai'n rhaid eu cyfeirio at unrhyw ysgolion â llefydd gwag | • Potensial i lefydd gwag mewn rhai ysgolion gael eu lleihau, a allai wneud rhai ysgolion llai yn fwy hyfyw | • Mae ysgolion yn debygol o fod ymhellach i ffwrdd o'r galw na Marlborough a/neu Barc y Rhath.<br>• Nid yw rhieni wedi mynychu rhai ysgolion cyfagos â llefydd gwag ac wedi dewis teithio i ardaloedd eraill, gan leihau gallu ysgolion i dderbyn ceisiadau hwyr neu'r disgyblion hynny sydd wedi symud yn ystod eu haddysg gynradd<br>• Gall llefydd 'sbâr' annigonol mewn ardal olygu nad yw brawd neu chwaer weithiau'n gallu mynychu'r un ysgol yn eu hardal leol<br>• Gallai unrhyw dai ychwanegol yn yr ardal olygu y byddai llefydd rhagor o blant yn cael eu gwrthod yn eu hysgol leol |

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Safonau ysgol**<br>Safonau ysgolion y byddai disgyblion yn eu mynychu | • Disgyblion sy'n mynychu Marlborough neu Barc y Rhath:<br>• Mae gan yr ysgolion hyn hanes cyson o ganlyniadau da i blant | • Disgyblion sy'n mynychu ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos:<br>• Mae gan rai ysgolion hanes llai cyson o ganlyniadau da i blant |
| **Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth**<br>Byddai'r plant hynny yn nalgylchoedd presennol Marlborough neu Barc y Rhath y gwrthodir rhoi lle iddynt yn mynychu ysgolion ymhellach i ffwrdd | | • Bydd angen i rai disgyblion gerdded ymhellach o'r cartref i'r ysgol<br>• Mae'n debygol y bydd mwy o deuluoedd yn dewis teithio mewn car<br>• Bydd y traffig ychwanegol ar y ffyrdd yn achosi tagfeydd<br>• Dulliau teithio sy'n llygru mwy<br>• Gallai lleihau'r llefydd gwag ymhellach yn yr ardal ehangach olygu bod rhagor o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ac mae angen i'r Cyngor gludo rhagor o blant i ysgolion nad ydynt yn lleol |
| **Costau cyfalaf (e.e. adeiladu)**<br>Cost adeiladu llefydd ysgol ychwanegol i ddiwallu galw cynyddol, neu gostau adeiladu eraill o ganlyniad i beidio ag adeiladu llefydd ysgol ychwanegol | • Nid eir i gostau cyfalaf wrth adeiladu llefydd ysgol ychwanegol | • Yn sgil y traffig ychwanegol ar y ffyrdd, efallai y bydd angen i'r Cyngor gynnal gwaith ar y priffyrdd er mwyn ymdopi â'r traffig ychwanegol |
| **Costau refeniw (e.e. staffio)**<br>Cost staff ychwanegol | • Mae'n debygol y byddai cadw darpariaeth bresennol ysgolion a llenwi rhai llefydd gwag yn mynd i lai o gostau rheoli a staff ategol, a gall leihau costau staff addysgu (fesul disgybl) | • Gallai lleihau'r llefydd gwag ymhellach yn yr ardal ehangach olygu bod rhagor o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ac mae'r Cyngor yn mynd i gostau am gludo mwy o blant i ysgolion nad ydynt yn lleol |

**Newid ffiniau dalgylchoedd a pheidio â newid adeiladau ysgolion presennol**

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Argaeledd llefydd ysgol**<br>Byddai ffiniau dalgylchoedd ysgol yn cael eu diwygio er mwyn i ddalgylchoedd Marlborough a Pharc y Rhath (lle bo gormod o alw) gael eu lleihau a'r dalgylchoedd cyfagos sy'n bodoli eisoes yn mynd yn fwy | • Potensial i lefydd gwag mewn rhai ysgolion gael eu lleihau, a allai wneud rhai ysgolion llai yn fwy hyfyw<br>• Paru gwell rhwng cyflenwad llefydd a'r galw am lefydd o fewn pob dalgylch; byddai mwy o ddisgyblion yn gallu mynychu'r ysgol yn eu dalgylch lleol | • Byddai ysgolion yn debygol o fod ymhellach i ffwrdd na Marlborough a/neu Barc y Rhath.<br>• Mae rhieni wedi gwrthod anfon plant i rai ysgolion cyfagos â llefydd gwag ac wedi dewis teithio i ardaloedd eraill, gan leihau gallu ysgolion i dderbyn ceisiadau hwyr neu'r disgyblion hynny sydd wedi symud yn ystod eu haddysg gynradd<br>• Gall llefydd 'sbâr' annigonol mewn ardal olygu nad yw brawd neu chwaer weithiau'n gallu mynychu'r un ysgol yn eu hardal leol<br>• Gallai unrhyw dai ychwanegol yn yr ardal leol olygu na fyddai rhagor o blant yn gallu mynychu'r ysgolion hyn |

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Safonau ysgolion**<br>Safonau ysgolion y byddai disgyblion yn eu mynychu | • Disgyblion sy'n mynychu Marlborough neu Barc y Rhath:<br>• Mae gan yr ysgolion hyn hanes cyson o ganlyniadau da i blant | • Disgyblion sy'n mynychu ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos:<br>• Mae gan rai ysgolion hanes llai cyson o ganlyniadau da i blant |
| **Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth**<br>Byddai'r plant hynny yn nalgylchoedd presennol Marlborough neu Barc y Rhath y gwrthodir rhoi lle iddynt yn mynychu ysgolion ymhellach i ffwrdd | | • Bydd angen i rai disgyblion gerdded ymhellach o'r cartref i'r ysgol<br>• Mae'n debygol y bydd mwy o deuluoedd yn dewis teithio mewn car<br>• Bydd y traffig ychwanegol ar y ffyrdd yn achosi tagfeydd<br>• Dulliau teithio sy'n llygru mwy<br>• Gallai lleihau'r llefydd gwag ymhellach yn yr ardal ehangach olygu bod rhagor o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ac mae angen i'r Cyngor gludo rhagor o blant i ysgolion nad ydynt yn lleol |
| **Costau cyfalaf (e.e. adeiladu)**<br>Cost adeiladu llefydd ysgol ychwanegol i ddiwallu galw cynyddol, neu gostau adeiladu eraill o ganlyniad i beidio ag adeiladu llefydd ysgol ychwanegol | • Nid eir i gostau cyfalaf wrth adeiladu llefydd ysgol ychwanegol | • Yn sgil y traffig ychwanegol ar y ffyrdd, efallai y bydd angen i'r Cyngor gynnal gwaith ar y priffyrdd er mwyn ymdopi â'r traffig ychwanegol |
| **Costau refeniw (e.e. staffio)**<br>Cost staff ysgol ychwanegol | • Mae'n debygol y byddai cadw darpariaeth bresennol ysgolion a llenwi rhai llefydd gwag yn mynd i lai o gostau rheoli a staff ategol, a gall leihau costau staff addysgu (fesul disgybl) | • Gallai lleihau'r llefydd gwag ymhellach yn yr ardal ehangach olygu bod rhagor o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ac mae'r Cyngor yn mynd i gostau am gludo mwy o blant i ysgolion nad ydynt yn lleol |

## Newid ffiniau dalgylchoedd ac ymestyn adeiladau ysgolion presennol

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Argaeledd llefydd ysgol**<br>Gallai 30 neu 60 o lefydd ychwanegol fesul grŵp blwyddyn gael eu darparu drwy ymestyn ysgolion lleol e.e. Ysgol Gynradd Marlborough, Parc y Rhath, Lakeside neu Rydypenau | • Paru gwell rhwng cyflenwad llefydd a'r galw am lefydd o fewn pob dalgylch; byddai mwy o ddisgyblion yn gallu mynychu'r ysgol yn eu dalgylch lleol<br>• Byddai'r dalgylchoedd ym Mhen-y-lan a Phlasnewydd yn llai a byddai rhai o ddisgyblion yn agosach at ysgol eu dalgylch.<br>• Mae'r amcanestyniadau sy'n bodoli eisoes yn nodi y byddai plant sy'n gwneud cais am leoedd yn ysgol eu dalgylch erbyn y dyddiad cau yn gallu cael eu derbyn.<br>• Gall cadw lefel o lefydd sbâr alluogi mwy o blant i gael eu derbyn yn llwyddiannus i'w dewis ysgol<br>• Gall cadw lefel o lefydd sbâr alluogi mwy o frodyr a chwiorydd i fynychu'r un ysgol yn eu hardal leol | • Mae Marlborough a Pharc y Rhath ar safleoedd cyfyngedig felly nid yw'n bosibl gwneud y lle'n fwy dros dro heb gyfaddawdu lle<br>• Byddai ymestyn Lakeside a/neu Rydypenau, ar y cyd â gwneud y dalgylchoedd yn fwy, yn golygu y byddai'r ysgolion hyn yn gwasanaethu dalgylchoedd mwy ac y byddai rhai disgyblion ymhellach i ffwrdd o ysgol eu dalgylch.<br>• Gall ysgolion sydd â llefydd gwag ar hyn o bryd barhau i gael llefydd gwag yn y dyfodol |

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Safonau ysgol**<br>Safonau ysgolion y byddai disgyblion yn eu mynychu | • Disgyblion sy'n mynychu Marlborough neu Barc y Rhath:<br>• Mae gan yr ysgolion hyn hanes cyson o ganlyniadau da i blant<br>• Disgyblion sy'n mynychu Lakeside a/neu Rydypenau:<br>• Mae gan yr ysgolion hyn hanes cyson o ganlyniadau da i blant | |
| **Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth**<br>Byddai'r plant hynny yn nalgylchoedd presennol Marlborough neu Barc y Rhath y gwrthodir rhoi lle iddynt yn mynychu ysgolion ymhellach i ffwrdd | • Byddai cadw rhai llefydd gwag yn yr ardal ehangach olygu y bydd llai o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol | • Bydd angen i rai disgyblion gerdded ymhellach o'r cartref i'r ysgol<br>• Mae'n debygol y bydd mwy o deuluoedd yn dewis teithio mewn car<br>• Bydd y traffig ychwanegol ar y ffyrdd yn achosi tagfeydd<br>• Dulliau teithio sy'n llygru mwy<br>• Gwaethygu tagfeydd a phroblemau parcio sy'n bodoli eisoes o amgylch safle Lakeside |
| **Costau cyfalaf (e.e. adeiladu)**<br>Cost adeiladu llefydd ysgol ychwanegol i ddiwallu galw cynyddol, neu gostau adeiladu eraill o ganlyniad i beidio ag adeiladu llefydd ysgol ychwanegol | | • Eir i gostau cyfalaf wrth adeiladu llefydd ysgol ychwanegol<br>• Posibilrwydd o fynd i gostau yn sgil traffig ychwanegol yn yr ardal o amgylch yr ysgol(ion) estynedig<br>• Efallai y bydd y traffig cynyddol ar y ffyrdd yn golygu y bydd angen i'r Cyngor ymgymryd â gwaith priffyrdd ychwanegol yn yr ardal ehangach |
| **Costau refeniw (e.e. staffio)**<br>Cost staff ychwanegol | • Mae'n debygol y byddai ymestyn darpariaeth bresennol ysgolion yn mynd i lai o gostau rheoli a staff ategol, a gall leihau costau staff addysgu (fesul disgybl)<br>• Mae'n debygol y byddai cynyddu nifer y llefydd ysgol yn yr ardal ehangach yn golygu bod llai o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ac y byddai costau'r Cyngor am gludo plant i ysgolion nad ydynt yn lleol yn lleihau | |

## Sefydlu ysgol â dau ddosbarth derbyn newydd ar safle Howardian a newid dalgylchoeddd

| Mater | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| **Argaeledd llefydd ysgol**<br>Byddai 60 o leoedd ychwanegol yn cael eu darparu mewn ysgol newydd ar safle Howardian | • Paru gwell rhwng cyflenwad llefydd a'r galw am lefydd o fewn pob dalgylch; byddai mwy o ddisgyblion yn gallu mynychu'r ysgol yn eu dalgylch lleol<br>• Byddai dalgylchoedd ym Mhen-y-lan a Phlasnewydd yn llai a byddai rhai disgyblion felly yn agosach at ysgol eu dalgylch.<br>• Mae'r amcanestyniadau sy'n bodoli eisoes yn nodi y byddai plant sy'n gwneud cais am leoedd yn ysgol eu dalgylch erbyn y dyddiad cau yn gallu cael eu derbyn.<br>• Gall cadw lefel o lefydd sbâr alluogi mwy o blant i gael eu derbyn yn llwyddiannus i'w dewis ysgol<br>• Gall cadw lefel o lefydd sbâr alluogi mwy o frodyr a chwiorydd i fynychu'r un ysgol yn eu hardal leol | • Gall ysgolion sydd â llefydd gwag ar hyn o bryd barhau i gael llefydd gwag yn y dyfodol |
| **Safonau ysgol**<br>Safonau ysgolion y byddai disgyblion yn eu mynychu | • Disgyblion sy'n mynychu Marlborough neu Barc y Rhath:<br>• Mae gan yr ysgolion hyn hanes cyson o ganlyniadau da i blant<br>• Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol newydd sydd wedi'i sefydlu:<br>• Byddai'r ysgol newydd yn cael ei rheoli gan Bennaeth profiadol o ysgol â chofnodion cyson o ganlyniadau da i blant | • Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol newydd sydd wedi'i sefydlu:<br>• Er y byddai ysgol newydd yn cael ei chefnogi gan yr Awdurdod Lleol a'r Consortiwm Addysg, mae safonau unrhyw ysgol newydd heb eu profi |
| **Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth**<br>Byddai'r plant hynny yn nalgylchoedd presennol Marlborough neu Barc y Rhath y gwrthodir rhoi lle iddynt yn mynychu ysgolion ymhellach i ffwrdd | • Bydd disgyblion yn cerdded yn llai pell o'r cartref i'r ysgol<br>• Mae'n debygol y bydd llai o deuluoedd yn dewis teithio mewn car<br>• Efallai y bydd llai o draffig ar y ffordd oherwydd bod ysgolion agosach ar gael<br>• Dulliau teithio sy'n llygru llai<br>• Byddai cadw rhai llefydd gwag yn yr ardal ehangach yn golygu y bydd llai o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol | |
| **Costau cyfalaf (e.e. adeiladu)**<br>Cost adeiladu llefydd ysgol ychwanegol i ddiwallu galw cynyddol, neu gostau adeiladu eraill o ganlyniad i beidio ag adeiladu llefydd ysgol ychwanegol | • Efallai y bydd llai o draffig ar y ffyrdd yn golygu y bydd angen i'r Cyngor ymgymryd â llai o waith priffyrdd ychwanegol yn yr ardal ehangach | • Eir i gostau cyfalaf wrth adeiladu llefydd ysgol ychwanegol<br>• Posibilrwydd o fynd i gostau yn sgil traffig ychwanegol yn yr ardal o amgylch yr ysgol newydd |
| **Costau refeniw (e.e. staffio)**<br>Cost staff ychwanegol | • Mae'n debygol y byddai cynyddu nifer y llefydd ysgol yn yr ardal ehangach yn golygu bod llai o ddisgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ac y byddai costau'r Cyngor am gludo plant i ysgolion nad ydynt yn lleol yn lleihau | • Mae'n debygol y byddai'n mynd i gostau uwch o reoli a staff ategol, a gall gynyddu costau staff addysgu (fesul disgybl) |

## Trefniadau derbyn a dalgylch

Nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu'r cynnig i sefydlu'r ysgol newydd, **ni fydd** modd i rieni wneud cais mynediad ffurfiol i'r ysgol honno hyd nes y bydd y broses statudol wedi dod i ben. Ni fydd modd cwblhau'r broses hon tan fis Mai 2015 ar y cynharaf.

Mae sefydlu pob dalgylch ysgol unigol yn gofyn bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol. Yn ei rôl fel awdurdod derbyn, mae'r Cyngor yn ymgynghori ag ysgolion bob blwyddyn ynghylch trefniadau derbyn disgyblion i'r ysgol, gan gynnwys dalgylchoedd yr ysgolion. Mae trefniadau derbyn i'r ysgolion wedi'u pennu hyd at ddiwedd blwyddyn ysgol 2015-16.

Er y gellid cwblhau'r sail statudol fydd ei hangen i ddarparu llefydd ysgol ychwanegol erbyn mis Medi 2015, a fydd yn ei dro yn galluogi derbyn disgyblion ychwanegol o'r dyddiad hwn ymlaen, ni fyddai modd gweithredu unrhyw newidiadau i drefniadau derbyn ysgolion fel diwygio dalgylchoedd tan fis Medi 2017 ar y cynharaf, yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn dadansoddiad pellach o'r niferoedd sy'n derbyn llefydd Derbyn yn 2014 a 2015, disgwylir y bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn gynnar yn 2016 ac y byddai'r trefniadau wedyn yn cael eu gweithredu ym mis Medi 2017.

Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llawlyfr y Cyngor ar Dderbyn i Ysgolion a gellir gweld y wybodaeth hon hefyd ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

## Materion Ariannol

Byddai gwerthu tir ar safle Howardian yn rhannol yn cynhyrchu derbyniad cyfalaf, y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo rhan o'r gwaith adeiladu newydd arfaethedig. Fodd bynnag, ar ôl caniatáu am y derbyniad hwn, amcangyfrifir y byddai angen adnoddau pellach o £4.5 miliwn.

Ym mis Tachwedd 2011, cyflwynodd y Cyngor gais Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd lefel y buddsoddiad Cyfalaf yn y Rhaglen honno (wedi'i briodoli i 50 % o arian gan Lywodraeth Cymru, 50 % o arian gan yr Awdurdod) mewn egwyddor ym mis Rhagfyr 2011. Mae'r gymeradwyaeth lawn o arian grant penodol yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i Achosion Busnes ar gyfer cynlluniau penodol. Cynigir y caiff Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ei hadolygu a'i diwygio i ryddhau adnoddau digonol ar gyfer adeiladu. Cynhelir yr adolygiad hwn yn hydref 2014.

Nid oedd ysgol gynradd â 2 ddosbarth derbyn yn Howardian wedi'i chynnwys yng nghynnig gwreiddiol Ysgolion yr 21ain Ganrif, felly bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cadarnhad gan Lywodraeth Cymru eu bod yn fodlon i'r cynllun hwn gael ei ychwanegu at y Rhaglen.

Caiff cyllidebau ysgolion eu hariannu yn bennaf gan fecanwaith ariannu fformiwla sy'n defnyddio niferoedd disgyblion fel ei brif sail. Byddai angen adlewyrchu unrhyw gynnydd (neu leihad) yn niferoedd y disgyblion fesul ysgol yng nghyllideb refeniw'r ysgol.

## Materion Adnoddau Dynol

Cynhyrchwyd Fframwaith Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad â'r prif randdeiliaid gan gynnwys Penaethiaid, llywodraethwyr, cynrychiolwyr yr awdurdodau esgobaethol a'r undebau llafur. Mae'n sail ar gyfer rheoli materion adnoddau dynol sy'n gysylltiedig â Chynllunio Trefniadaeth Ysgolion a'i ddiben yw cynorthwyo cyrff llywodraethu a staff sy'n gweithio mewn ysgolion drwy gyfrwng amrywiaeth o strategaethau gyda'r nod yn y pen draw o leihau'r diswyddiadau gorfodol ar draws ysgolion yng Nghaerdydd.

Byddai nifer o oblygiadau Adnoddau Dynol yn gysylltiedig â'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg â darpariaeth feithrin. Ar y cychwyn, byddai dosbarth dechreuol yn cael ei sefydlu ar gyfer mis Medi 2015 gydag un o Benaethiaid presennol ysgol yng Nghaerdydd a fydd yn gyfrifol dros reolaeth hyd nes y bydd corff llywodraethu dros dro yr ysgol newydd yn penodi Pennaeth parhaol. Byddai angen i gorff llywodraethu'r ysgol ystyried yr amserlen ar gyfer penodi Pennaeth er mwyn sicrhau bod modd paratoi strwythur staffio addas a phenodi staff ar gyfer y strwythur hwnnw. Byddai angen hefyd i'r Pennaeth a'r corff llywodraethu ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol i'w mabwysiadu o ran recriwtio, ac unwaith y bydd yr ysgol wedi'i sefydlu, o ran rheoli staff.

Byddai'r Cyngor yn awgrymu mabwysiadu'r Canllaw Adnoddau Dynol i Ysgolion sydd wedi'i gynllunio i roi gwybodaeth ac arweiniad i gyrff llywodraethu, Penaethiaid a staff ar y materion adnoddau dynol sy'n effeithio ar ysgolion, gan gynnwys crynodeb o gyfrifoldebau adnoddau dynol cyrff llywodraethu a Phenaethiaid. Byddai mabwysiadu'r Canllaw Adnoddau Dynol yn llawn yn sicrhau y byddai unrhyw swyddi staff gwag yn yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i unigolion ar gofrestr adleoli ysgolion, yn unol â Pholisi Adleoli a Diswyddo'r Cyngor ar gyfer ysgolion.

Mae posibilrwydd y byddai sefydlu ysgol newydd yn effeithio ar ddalgylchoedd ysgolion eraill yn yr ardal. Os bydd niferoedd disgyblion yn parhau yn debyg, ni ddylai unrhyw newidiadau mewn dalgylchoedd ysgolion cynradd effeithio'n sylweddol ar staffio. Gellid rheoli newidiadau mwy drwy drosiant naturiol mewn staff a thrwy ddefnyddio'r broses adleoli ar gyfer ysgolion yn effeithiol.

## Materion Trafnidiaeth

Er mwyn deall gofynion Trafnidiaeth safle Howardian yn llawn, argymhellir cynnal Ymchwiliad Trafnidiaeth cyn yr Asesiad Trafnidiaeth sydd ei angen ar gyfer y broses gynllunio.

Tybir y byddai dwy fynedfa i'r safle newydd, un o Heol Hampton Court ac un o Ffordd Hammond. Mae'r ddwy yn strydoedd preswyl ac yn ffyrdd pengaead.

Byddai angen marciau 'Cadwch yn Glir' digonol ar y ffyrdd wrth ymyl mynedfeydd yr ysgol ynghyd â'r Gorchmynion Rheoliadau Traffig cysylltiedig er mwyn sicrhau y cedwir y mynedfeydd yn glir o geir wedi'u parcio a chaniatáu mynediad rhwydd i gerddwyr.

Byddai angen parth 20 milltir yr awr yng nghyffiniau'r ysgol i sicrhau bod cyflymder y traffig yn addas i'r newidiadau. Mae'n bosibl y byddai angen mesurau lleddfu traffig.

Er mwyn sicrhau bod safle ysgol yn hygyrch i ddisgyblion sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol byddai'r llwybrau cerdded i'r safle yn cael eu hasesu.

O ran mynediad o'r ardal ehangach, mae'r cyfleusterau i gerddwyr groesi'r ffordd ar gyffordd Rhodfa Colchester â Ffordd Pen-y-lan yn wael ac efallai bydd angen eu huwchraddio os bydd y cynnig hwn yn parhau. Mae hon yn gyffordd brysur ac nid oes cyfleusterau croesi i gerddwyr sydd wedi'u rheoli ar hyn o bryd a gallai hyn fod yn rhwystr i ddisgyblion gerdded i'r ysgol.

Yn yr un modd, mae angen gwella cyffyrdd Rhodfa Dorchester a Rhodfa Winchester gyda Ffordd Waterloo. Mae'r cyfleusterau i gerddwyr groesi ar y cyffyrdd hyn yn wael a gallant fod yn rhwystr i ddisgyblion sy'n cerdded i'r ysgol. Felly efallai bydd angen gwelliannau i'r cyfleusterau hyn i gerddwyr os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt.

## Trefniadau Teithio Dysgwyr

O dan y cynigion hyn nid oes cynllun i newid polisi'r Cyngor ar drafnidiaeth plant i'r ysgolion ac o'r ysgolion. Byddai unrhyw ddisgybl a gaiff ei effeithio gan y cynnig hwn o ganlyniad i ddalgylchoedd yn cael cynnig yr un cymorth o ran teithio ag a ddarperir ledled Caerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ar draws Caerdydd. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

## Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Ni ragwelir y bydd effaith negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Nid oes bwriad gan y cynnig hwn i newid nifer y llefydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar ar gynnig ar wahân i ddarparu llefydd ychwanegol yn Ysgol y Wern sy'n gwasanaethu ardal Cyncoed. Mae digon o lefydd ar gael yn Ysgol y Berllan Deg i wasanaethu'r galw o'i dalgylch mewn blynyddoedd diweddar ac mae'r amcanestyniadau yn awgrymu y byddai digon o lefydd tan o leiaf 2017/18.

Mae swyddogion yn arolygu cyfraddau'r genedigaethau, y niferoedd yn sgil tai arfaethedig a phatrymau'r niferoedd sy'n dewis addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o gyflwyno cynlluniau addas i ddiwallu unrhyw gynnydd yn y galw.

## Materion Cydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad cychwynnol o Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynnig hwn a ddaeth i'r casgliad y gallai effeithio ar bob grŵp cymdeithasol sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gymunedol ar safle Howardian. Byddai angen cytuno ar lefel y ddarpariaeth gymunedol ar y safle hwn unwaith y bydd yn hysbys y bydd y cynnig i adeiladu ysgol yn mynd rhagddo ac yn dilyn canlyniad y gwerthusiad opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaethau ieuenctid.

Disgwylir y bydd y Cabinet yn ystyried papur opsiynau yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn amlinellu sut y gellid darparu Gwasanaethau Ieuenctid yn y dyfodol ar draws Caerdydd (gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r broses drosiannol o'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol i unrhyw fodel newydd o ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid).

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, byddai asesiadau effaith ar gydraddoldeb pellach yn cael eu cynnal gan gynnwys asesiad ar ddyluniad unrhyw adeiladau newydd neu adnewyddu/addasu'r adeiladau presennol.

## Materion Cynaliadwyedd

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r cynnig wedi'i gynnal yn unol â Deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r asesiad yn cadarnhau bod y cynnig yn cydymffurfio ag amcanion amgylcheddol a nodwyd yn Asesiad Amgylcheddol Strategol Caerdydd ar Ysgolion yr 21ain Ganrif: Fframwaith Strategol ar gyfer Rhaglen Gwella Adeiladau Ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo byddai asesiad amgylcheddol yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses gynllunio.

## Ystyried yr Effaith Gymunedol

Mae angen cynyddu nifer y llefydd cymunedol cyfrwng Saesneg sydd ar gael heb effeithio'n andwyol ar y gymuned. Ystyrir y canlynol wrth ystyried y cynnig: Mannau Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol pan fo'n bosibl.

Argymhellir cynnal Ymchwiliad Trafnidiaeth cyn yr Asesiad Trafnidiaeth sydd ei angen ar gyfer y broses gynllunio.

## Dyddiadau Allweddol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Caiff yr adborth o'r ymgynghoriad hwn ei gasglu a'i grynhoi a chaiff adroddiad ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Bydd adroddiad yr ymgynghoriad ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael gafael mewn copi drwy wneud cais am un i'r manylion cyswllt a welir yn y ddogfen hon.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu un ai i fwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig byddai Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyfle i unrhyw un sydd am wrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol wneud hynny. Er mwyn eu bod yn wrthwynebiadau statudol rhaid i wrthwynebiadau fod yn rhai ysgrifenedig neu wedi'u gwneud dros e-bost a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig.

Byddai Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad Statudol yng nghyfarfod nesaf y Cabinet ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ai peidio.

Os bydd gwrthwynebiadau, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau yn crynhoi'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny o fewn 7 diwrnod i ddyddiad penderfyniad y cynnig. Byddai'r adroddiad hwn hefyd ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael gafael mewn copïau drwy wneud cais i'r manylion cyswllt a welir yn y ddogfen hon.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, y dyddiad gweithredu yw mis **Medi 2015.**

**Beth yw'r dyddiadau allweddol a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a'r broses gyffredinol?**

Y cyfnod ymgynghorol o 22 Hydref 2014 i 03 Rhagfyr 2014.

- Bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Dinas Caerdydd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad
- Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Hysbysiad Statudol ai peidio.
- Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn caniatáu 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau.
- Os daw unrhyw wrthwynebiadau i law, byddai Cabinet y Cyngor yn penderfynu a fydd yn cymeradwyo'r cynnig ai peidio.

## Cwestiynau Cyffredin

- Beth fyddai goblygiadau'r cynnig i blant sy'n mynychu ysgolion yn yr ardal leol ar hyn o bryd?

Byddai plant sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn parhau i wneud hynny.

- Os bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn agor a fyddai darpariaeth feithrin ar gael?

Cynigir y byddai llefydd meithrin ar gael yn syth pan gaiff yr ysgol ei hagor ym mis Medi 2015.

- Os bydd yr ysgol newydd yn agor a fyddai'n derbyn plant i'r grwpiau blwyddyn hŷn?

Cynigir derbyn plant o'r grwpiau oedran Meithrin a Derbyn o fis Medi 2015 ymlaen gyda'r ysgol yn llenwi wrth i'r plant symud drwy'r grwpiau oedran.

Ni chaiff disgyblion eu derbyn i grwpiau blwyddyn hŷn yn yr ysgol newydd arfaethedig gan y byddai hyn yn ansefydlogi'r ysgolion cyfagos a gallai fod yn anodd ei reoli yn yr ysgol newydd arfaethedig.

- Beth fyddai'n digwydd i frodyr a chwiorydd hŷn sydd eisoes mewn ysgolion cynradd eraill?

Bydd brodyr a chwiorydd hŷn sydd eisoes yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn parhau i wneud hynny.

- Beth fyddai'r dalgylchoedd lleol os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen?

Mae'n rhaid i ddalgylchoedd fod o faint ac ardal ddaearyddol a all gynnal ysgolion sy'n agos at fod yn llawn o ran y niferoedd disgyblion arfaethedig. Petai'r cynnig i sefydlu ysgol newydd ar safle Howardian yn mynd yn ei flaen byddai'n rhaid ymgynghori yn ddiweddarach ar ddiwygio trefniadau dalgylch.

- A fyddai'r cynnig yn effeithio ar draffig yn yr ardal leol?

Byddai'r goblygiadau i draffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth sy'n ofynnol er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu petai'r cynnig yn cael ei weithredu.

- Beth am ddarparwyr gofal plant lleol yn yr ardal?

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn gefnogol i ddarparwyr Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar ac o ganlyniad y nod fyddai gweithio gyda darparwyr gofal plant lleol i sicrhau parhad yn y ddarpariaeth.

- Pryd byddai Corff Llywodraethu yn cael ei greu?

Os aiff y cynnig yn ei flaen, byddai corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol newydd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai amrywiaeth o randdeiliaid yn cael eu cyflwyno ar y corff llywodraethu dros dro, gan gynnwys rhieni, athrawon (o ysgolion lleol), staff nad ydynt yn addysgu (o ysgolion lleol), cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a phartneriaid cymunedol. Byddai'r Cyngor yn penodi staff nad ydynt yn addysgu yr Awdurdod Lleol a rhieni-lywodraethwyr a byddai'r corff llywodraethu dros dro yn penodi'r llywodraethwyr cymunedol a'r llywodraethwyr sy'n athrawon.

- Beth fyddai'r wisg ysgol?

Corff Llywodraethu dros dro yr ysgol fyddai'n penderfynu ar wisg i'r ysgol.

# FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (HOWARDIAN 2014)

Mae eich barn yn bwysig. Rhowch wybod i ni beth rydych yn ei feddwl am y cynnig drwy'r dulliau canlynol:

Cwblhau a dychwelyd yr holiadur amgaeedig i'r cyfeiriad a nodir ar waelod y ffurflen.
Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/Ysgolionyr21ainGanrif**
Neu os byddai'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**

**Noder bod yn rhaid i unrhyw sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn yr unigolyn sy'n cyflwyno'r sylwadau.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 03 Rhagfyr 2014. Yn anffodus ni all y Cyngor ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

Ni chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Gellir gwneud cais i weld unrhyw ymateb a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid ei wneud y gyhoeddus. Fodd bynnag byddwn yn dileu unrhyw wybodaeth a fyddai'n caniatáu adnabod unigolyn, fel enw a chyfeiriad.

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg â 2 ddosbarth derbyn ar safle Canolfan Gymunedol Howardian o fis Medi 2015 ymlaen?**

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig, rhowch eich rhesymau ynghyd ag unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yr hoffech eu hawgrymu.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch os hoffech dderbyn gwybodaeth am gyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad ☐

Anfonwch y ffurflen hon i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 219, Neuadd y Sir, CF10 4UW erbyn 03 Rhagfyr 2014